UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyngor Proffesiynol

# Adolygu Datblygiad Proffesiynol (gynt Rheoli Perfformiad)

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Pwrpas Adolygu Datblygiad Proffesiynol yw sicrhau addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol er budd pob dysgwr, ymarferydd a staff ehangach yr ysgol. Pwrpas a bwriad y broses yw gosod fframwaith i bob ymarferydd allu cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwella a'u hadolygu, a hynny yng nghyd-destun Cynllun Datblygu'r Ysgol a'u hanghenion eu hunain o ran datblygiad proffesiynol. Mae'r broses yn seiliedig ar safonau proffesiynol cenedlaethol ac mae'r canllawiau yn sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'r newidiadau diweddaraf yn y byd addysg.

# Sylwadau a chyngor i aelodau

### 1. Y Polisi Adolygu Datblygiad Proffesiynol a rôl y llywodraethwyr

- Rhaid i bob ysgol sefydlu polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut y bydd adolygu datblygiad proffesiynol yn cael ei weithredu yn yr ysgol yn unol â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.
- Cyn sefydlu'r polisi, rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau yr ymgynghorir â phob ymarferydd (ac eithrio athrawon digyswllt) yn yr ysgol. Anogir ysgolion i gynnwys gweithwyr cymorth dysgu wrth ddatblygu polisi. Dylid parchu rôl undebau'r gweithlu addysgu ac undebau'r gweithwyr cymorth dysgu cydnabyddedig yn llawn yn y broses hon. Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol i staff ei weld.
- Dylid adolygu polisi adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol bob blwyddyn a'i ddiwygio yn ôl yr angen, yn dilyn ymgynghoriad.
- O leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, rhaid i'r pennaeth gyflwyno crynodeb ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ar weithredu polisi adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol, effeithiolrwydd gweithdrefnau adolygu datblygiad proffesiynol yr ysgol, ac anghenion hyfforddi a datblygu ymarferwyr.

### 2. Rôl y Pennaeth

- Bydd y Pennaeth yn penodi partner adolygu datblygiad proffesiynol priodol ar gyfer pob ymarferydd yn yr ysgol. Mae'n rhaid i bartneriaid adolygu datblygiad proffesiynol athrawon fod yn athrawon cymwysedig. Gall y Pennaeth ei hun fod yn bartner adolygu datblygiad proffesiynol. Gall y Pennaeth ddewis partner adolygu datblygiad proffesiynol newydd ar unrhyw adeg. Rhaid hysbysu'r ymarferydd os oes unrhyw newid.

- Mae angen i Bennaeth ystyried y llwyth gwaith sy’n gysylltiedig â bod yn bartner adolygu datblygiad proffesiynol a darparu cymorth addas.
- Mae’n bwysig bod disgrifiadau swydd staff yn gyfredol.
- Cyfrifoldeb y Pennaeth yw creu’r amodau i gefnogi ymarferwyr i allu cyflawni’r gweithgareddau angenrheidiol ar gyfer adolygu datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo yn ystod amser cyfeiriedig ar gyfer trafodaethau datblygu proffesiynol.

## 3. Y Cylch Gwerthuso

- Blwyddyn yw hyd cylch gwerthuso fel arfer a dylai ddechau rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr; y Pennaeth fydd yn pennu’r amserlen ar gyfer pob athro.
- Mae’r broses yn un barhaus gydol y flwyddyn, gyda thri cham yn y broses sef cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad.

## 4. Pennu Blaenoriaethau Datblygu

- Dylai’r blaenoriaethau ganolbwyntio ar faterion y mae gan yr athro ddylanwad uniongyrchol drostynt. Dylent fod yn glir, yn gryno, yn heriol (ond yn realistig) ac yn berthnasol.
- Wrth bennu blaenoriaethau rhaid ystyried yr hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl i athro ei gyflawni. Weithiau bydd yr ymarferydd neu’r partner adolygu datblygiad proffesiynol o’r farn bod angen diwygio’r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.
- Rhaid i’r blaenoriaethau ymwneud â datblygu arferion proffesiynol yr ymarferydd; y swydd ddisgrifiad; blaenoriaethau perthnasol o gynllun datblygu’r ysgol; y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu. Dylai’r blaenoriaethau hefyd ystyried dyheadau proffesiynol yr ymarferydd a’r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion.

## 5. Gweithdrefnau monitro a datblygiad proffesiynol

- Dylid dod i gytundeb rhwng yr athro a’r partner adolygu datblygiad proffesiynol ynghylch sut i fyfyrio ar gynnydd a’i gynnal.
- Mae’r math o fyfyrio yn ddibynnol ar y blaenoriaethau datblygu a gall gynnwys arsylwadau gwersi, sesiynau galw heibio, teithiau dysgu, edrych ar lyfrau. Os na ellir dod i gytundeb ar sut i fyfyrio ar gynnydd, bydd y partner adolygu datblygiad proffesiynol yn nodi dull y mae’n ystyried yn briodol.

## 6. Arsylwi gwers fel rhan o'r broses

- Mae'n ofyniad statudol i'r partner adolygu datblygiad proffesiynol arsylwi ar wers ymarferydd o leiaf unwaith yn ystod y cylch adolygu.
- Dim ond person â statws athro cymwysedig all arsylwi gwersi at ddibenion adolygu datblygiad proffesiynol; mae angen pum diwrnod o rybudd ar gyfer arsylwi. Dylai'r sawl sy'n arsylwi fod â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau i gyflawni'r rôl yn effeithiol. Mae UCAC o'r farn y dylai'r arsylwr fod yn hyddysg yn yr iaith y cyflwynir y wers.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i bwrpas a natur yr arsylwadau a'r canlyniad a ddymunir er mwyn sicrhau bod y profiad yn un adeiladol.
- Nid yw'r broses adolygu datblygiad proffesiynol yn rhan o weithdrefnau medrusrwydd, disgyblu na diswyddo.
- Disgwylir i ysgolion greu'r amodau i sicrhau bod arsylwi a gweithgareddau eraill yn cael eu hystyried yn gyfle gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol a gwelliant parhaus ac yn gyfle i bawb gefnogi ei gilydd.
- Dylai athro dderbyn adborth llafar mor fuan â phosibl wedi'r arsylwad gwers gydag adborth ysgrifenedig o fewn pum diwrnod.
- Dylid cofio fod deialog broffesiynol ac adborth yn hollbwysig wrth fyfyrio ar gynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau. Dylai'r adborth fod yn benodol, yn adeiladol ac yn heriol (ond yn barchus). Dylai fod yn rhan o ddeialog sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau ac nid nodweddion ac yn myfyrio ar lwyddiannau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Dylai'r adborth hefyd fod yn rhan o drafodaeth am y camau nesaf.

## 7. Cofnodi

- Drwy'r cylch adolygu datblygiad proffesiynol, dylai'r athro gadw cofnod (cynllun datblygu proffesiynol) o'i asesiad ei hun o berfformiad yn erbyn y blaenoriaethau, manylion unrhyw ddatblygiad proffesiynol perthnasol, a manylion unrhyw ffactorau pwysig eraill.
- Dylai'r cynllun datblygu proffesiynol fod yn ddogfen 'fyw' y dylai ymarferwyr ei defnyddio drwy gydol y flwyddyn.

## 8. Y cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol

- Ar ddiwedd y cylch adolygu datblygiad proffesiynol, neu'n agos i ddiwedd y cylch, rhaid cynnal cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol.
- Dylai athro dderbyn rhybudd o leiaf ddeg diwrnod cyn y cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol.
- Diben y cyfarfod yw crynhoi'r gweithgarwch dros y flwyddyn drwy fyfyrio ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau datblygu (ar lefel yr unigolyn a'r ysgol), safonau proffesiynol perthnasol, manteision a chymhwyso dysgu proffesiynol, cyflawniad dysgwyr, unrhyw ffactorau a allai fod wedi cael effaith ar yr uchod.
- Gellir defnyddio'r cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol i gytuno ar yr hyn y mae angen canolbwyntio arno ar gyfer y cylch adolygu datblygiad proffesiynol nesaf.
- Bydd yr ymarferydd wedi myfyrio drwy gydol y flwyddyn a rhaid iddo rannu ei fyfyrdodau gyda'i bartner adolygu datblygiad proffesiynol o leiaf pum diwrnod ysgol cyn y cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol.

## 10. Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol?

- O fewn 10 diwrnod ysgol i'r cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol, bydd y partner adolygu datblygiad proffesiynol yn llunio crynodeb byr o'r drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddyn nhw.
- Anogir partneriaid adolygu datblygiad proffesiynol i rannu'r crynodeb gyda'r ymarferydd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod. Gall yr ymarferydd ychwanegu ei sylwadau ei hun at y crynodeb.
- Rhaid i'r crynodeb o'r cyfarfod adolygu datblygiad proffesiynol blynyddol fod ar gael i'r Pennaeth. Rhaid i'r pennaeth gadw'r crynodeb tan o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau crynodeb nesaf yr adolygiad.

## 10. Apelio

- Os na all yr ymarferydd gytuno ar ganlyniad y cyfarfod adolygu, gall wneud apêl ysgrifenedig i'r corff llywodraethu o fewn 10 diwrnod o dderbyn crynodeb y cyfarfod adolygu.
- Dylai aelodau gysylltu ag UCAC am gyngor mewn sefyllfa o anghydfod neu anfodlonrwydd yn deillio o'r broses adolygu datblygiad proffesiynol.

## 11. Datblygiad cyflog yn gysylltiedig â Pherfformiad

Ers mis Medi 2020, nid yw datblygiad cyflog athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog yn gysylltiedig â pherfformiad. Y disgwyliad arferol yw bod athrawon yn symud i fyny un pwynt ar yr y graddfeydd cyflog cenedlaethol yn flynyddol, oni bai eu bod yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

Mae'r dilyniant o'r Brif Raddfa Gyflog i'r Raddfa Gyflog Uwch yn parhau i fod ar sail perfformiad. Wedi hynny, y disgwyliad arferol yw bod athrawon yn symud i fyny un pwynt ar y Raddfa Gyflog Uwch bob dwy flynedd.

## 12.Arsylwi Gwersi mewn Ysgolion

Mae UCAC yn ymwybodol iawn bod arsylwi gwersi ar gynnydd ac yn bryderus bod pwysau afresymol ac annheg ar athrawon mewn rhai ysgolion oherwydd gorddefnydd a chamddefnydd o arsylwi gwersi.

Mae’r daflen wybodaeth Arsylwi Gwersi mewn Ysgolion yn cynnig arweiniad pellach gan UCAC ar y mater.

Mae UCAC yn derbyn bod arsylwi gwersi mewn modd cadarnhaol a chytunedig yn gallu cyfrannu tuag at ddatblygiad proffesiynol, rhannu arfer da a chodi safonau.

Barn UCAC yw bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni orau lle mae’r arsylwi’n digwydd oddi mewn i strwythur clir Polisi Arsylwi Gwersi wedi’i lunio yn dilyn trafodaeth drylwyr gydag athrawon ac ymgynghoriad undebau.

## Rhagor o wybodaeth

Gwybodaeth am Adolygu Datblygiad Proffesiynol gan Lywodraeth Cymru

https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/adnabod-anghenion-dysgu-proffesiynol/adolygu-datblygiad-proffesiynol/

Gwybodaeth am Safonau Proffesiynol gan Lywodraeth Cymru:
https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/

Gwybodaeth am y Pasbort Dysgu Proffesiynol
https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/datblygiad-proffesiynol/pasbort-dysgu-proffesiynol-pdp

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru